COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 136

**Amseru:** Arferol

**Teitl:** Diwygio'r Llawlyfr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Gwirfoddolwyr

**Crynodeb Gweithredol:**

O ganlyniad i adolygiad o'r Lawlyfr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, gwnaed y newidiadau canlynol:

- Cynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (Atodiad Ch). Pob Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd i arwyddo ar ôl cael ei benodi i'r cynllun.
- Dylid cyflwyno unrhyw gwynion am ymddygiad ymwelydd arall, nad oes modd eu datrys yn lleol, yn ysgrifenedig i Weinyddwr y Cynllun.
- Newid y cyfnod y caiff Cadeirydd y Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ddal y swydd o flwyddyn i dair blynedd. Gan fod dau gyfarfod Panel y flwyddyn, teimlwyd bod cyfnod o dair blynedd yn fwy priodol ar gyfer dal y swydd.
- Diwygio'r llawlyfr i adlewyrchu newidiadau nad yw Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn medru gweithredu fel Ymwelydd Annibynnol a Dalfeydd yn ogystal ag Oedolyn Priodol.
- Cynnwys Polisi Dial, yn unol ag argymhelliad y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

**Argymhelliad:**
Gofynnir i'r Comisiynydd gymeradwyo'r diwygiadau i lawlyfr yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 16/8/2019